y Dinesydd

MAI/MEHEFIN 1994 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD RHIF 203

# ELUNED YN GWIREDDU BREUDDWYD



Mae un o ferched ifanc stad Trelái wedi cael ei hethol yn aelod seneddol Ewropeaidd. Ond yn fwy na hynny, Eluned Morgan yw'r aelod seneddol Ewropeaidd ieuengaf yr ynysoedd hyn. Fel un o ferched ifanc Trelái mae Eluned wedi torri record. Mae Eluned wedi gwireddu breuddwyd - ei breuddwyd hi a breuddwyd ei rhieni, y Parchedig Bob Morgan a'i mam, y Cynghorydd Elaine Morgan.

Er mai dim ond saith ar hugain oed ydi Eluned, bydd yn cynrychioli etholaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru ar ran Llafur yn Senedd Ewrop. Ond wrth edrych ar hanes y ferch ifanc hon a'i magwraeth ar un o stadau mwyaf difreintiedig Cymru mae'n rhaid i ni hefyd edrych ar ei chefndir teuluol.

Mae hi wedi ei geni i deulu sydd wedi ymhel â gwleidyddiaeth ar hyd y blynyddoedd. Yn wir, fe ddechreuoodd ei gyrfa wleidyddol pan oedd hi'n ddim o beth - yn saith oed, a bod yn fanwl gywir. Oedd, mi roedd hi yn rhannu pamffledi ar ran y Blaid Lafur yn yr oed cynnar hwnnw.

Mae hi wedi cael ei chreu ar gyfer y swydd, fel mae nhw'n dweud. Mae hi'n aml-ieithol - yn siarad Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg a Sbaeneg yn rhugl. Cafodd ei haddysg yn Ysgol Bryntaf a Glantaf, a Phrifysgol Hull.

Ond yn Grand Avenue, Trelái y cafodd Eluned ei geni ar Chwefror 16, 1967, ac etifeddodd ei ymwybyddiaeth wleidyddol oddi wrth ei rhieni. Ac yn y man tyfodd ei diddordeb mewn pethau Ewropeaidd trwy gyfarfod â myfyrwyr Coleg Yr Iwerydd a fu'n rhoi cymorth i redeg cynlluniau chwarae yn Nhrelái.

Yn ystod ei gyrfa mae Eluned wedi teithio'n eang - yn cynnwys Nicaragua, Columbia a Madrid, ac mae hi wedi gweithio i S4C, Agenda yn Abertawe a'r BBC yng Nghaerdydd.

Yn ôl ei thad, y Parchedig Bob Morgan, mae Eluned wedi "gwneud mwy na llawer mewn saith mlynedd ar hugain. Erbyn hyn mae hi'n ceisio newid y gymuned er gwell. Ond y wefr fwyaf ydi ei bod hi yn gallu gwneud hyn ar raddfa llawer ehangach nag yr oedd Elaine a mi yn gallu ei wneud.

"'Ryden ni yn falch bod Trelái yn gallu magu rhywun fel Eluned oherwydd yr enw drwg mae stad Trelái wedi ei gael ar hyd y blynyddoedd. Mae rhywbeth da yn gallu dod o Trelai, a dyna beth sy'n bwysig."

Ac yn ôl ei mam, y Cynghorydd Elaine Morgan, "Am 26 mlynedd rydw i wedi cael fy adnabod yn y cylchoedd gwleidyddol fel gwraig Bob Morgan. Ond bellach bydd yn rhaid i mi ddygymod â chael fy adnabod fel mam Eluned Morgan, yr aelod seneddol Ewropeaidd."

O'r chwith y tad, Y Parchedig Bob Morgan, Eluned yn 16 oed yng Ngholeg Iwerydd, ac yna ar wyliau gyda'r teulu.



# *changing* WALES

## CARDIFF: HALF AND HALF A CAPITAL

### Rhodri Morgan M.P.

Rhodri Morgan, Labour M.P. for Cardiff West since 1987, examines the role of Cardiff as the Capital of Wales and makes a critical assessment of Cardiff as a city in its own right.

'You don't get political self-determination, shared or otherwise from a load of quangos and a Secretary of State . . . in the Crown Buildings at Cathays Park. The real decisions . . . are all made . . . in Whitehall. They are not accountable to the people of Wales . . . A captial with the headquarters of all the quangos in the world cannot be the same as a capital which has a focus for the people in it, with real democratic accountability.'

80pp, Softback, £4.25 ISBN 1 85902 112 3

*also available:*

**The Democratic Challenge** - John Osmond, £3.75

**The Political Conundrum** - Clive Betts, £3.95

*Please add 50p per title towards p&p.*

Gomer Press - Llandysul - Dyfed SA44 4BQ

GOMER ☎ 0559 362371

Fax 0559 363758



## y Dinesydd

**BOB MIS MAE DROS 10,000 O BOBOL YNG NGHAERDYDD A THU HWNT YN DARLLEN Y DINESYDD.**

ER MWYN CYRRAEDD Y NIFER MWYAF POSIB O GYMRY CYMRAEG CAERDYDD FFONIWCH MEURYN YN SWYDDFA WERTHIANT Y DINESYDD

**0222 455200**

***Cyfraddau hysbysebion sylw (mono):*** tudalen lawn £350; hanner tudalen £180; chwarter tudalen £100; wythfed tudalen £60; pob colofn cm £7

***Cyfradd hysbysebion cyhoeddi:*** £15

Ffigur nifer y darllenwyr yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg y Dinesydd, Mai 1991.



## LYNN JONES

Buddsoddiadau

Yswiriant Bywyd

Pensiynau

Aelod o FIMBRA

30 Highfields,

Llandaf Caerdydd CF5 2QB

Ffôn 0222 562816



## *STEIL a steil*

Mae Steil yn ôl ar S4C, bob nos Fawrth o Mai 10 am 8 'o'r gloch.

Cynhyrchiadau

fflic

9 - 10 Heol y Porth, Caerdydd 0222 378900



## CHWILIO AM WAITH RHAN AMSER?

- Ar gael am ran o'r dydd?
- Awydd diwrnod yma a thraw?
- Byw o fewn cyrraedd i Lanisien?
- Galluoedd swyddfa?

Pam na wnewch chi gais ysgrifenedig i fod ar restr gweithlu achlysurol S4C ym Mharc Tŷ Glas?

Nodwch yn eich llythyr yr adegau hwylusaf i chi weithio, eich profiad, gan gynnwys sgiliau arbenigol, ynghyd ag enw dau ganolwr.

S4C

Anfonwch at

Kay Walters

S4C, Parc Tŷ Glas,

Llianisien, Caerdydd, CF4 5DU

# PWYLLGOR GWAITH NEWYDD I LYWIO'R DINESYDD

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Dinesydd a gynhaliwyd nos Fercher 25 Mai yng nghapel y Crwys, etholwyd Pwyllgor newydd dan drefn a gynigwyd yng Nghyfansoddiad arfaethedig y papur. Yn ôl y Cyfansoddiad, y cyntaf erioed i'r Dinesydd, penodwyd Pwyllgor Gwaith o 11 aelod. Er bod y Pwyllgor newydd wedi cael ei benodi dan y drefn newydd, bydd manylion llawn y Cyfansoddiad yn cael eu trafod ymhellach yn ystod y tri mis nesaf.

Yn sgîl ymddiswyddiad Alun Ceri Jones o gadeiryddiaeth y Dinesydd, etholwyd John Rowlands i'w olynu, a chadarnhawyd Catrin Lloyd Rowlands, ysgrifennydd y Grwp Golygyddol, fel Golygydd y Dinesydd.

Ail-etholwyd Aled Williams yn Drysorydd, a Mary Jones yn Ysgrifennydd. WJ Jones fydd yn cynrychioli'r Grwp Golygyddol a Robin Jones y Grwp Dosbarthu. Bydd tri aelod annibynnol arall i'r Pwyllgor Gwaith, sef Alun Ceri Jones, Tegwen Evans a Wyn James.

Bydd y Grwp Cyllid yn penodi eu haelod i'r Pwyllgor Gwaith, a'r Grwp Dosbarthu yn dewis Prif Ddiosbarthydd o'u plith.

Mae'r Dinesydd bellach yn gweithredu drwy dri grwp – ar gyfer Golygyddol, Cyllid a Dosbarthu – sy'n gwasanaethu'r Pwyllgor Gwaith. Gall unrhyw berson sy'n dymuno gwasanaethu a helpu'r grwpiau hynny ymaelodi â nhw, a dylech gysylltu â Mary Jones ar 810600 am fanylion pellach.

# CARYL A'R BAND YN ÔL

Ar Orffennaf 28 eleni bydd Caryl (Parry Jones) a'r Band yn ôl yn perfformio mewn cyngerdd arbennig i S4C yn y Gyfnewidfa Lo, Caerdydd.

Os hoffech ymuno yn y gynulleidfa (tocynnau am ddim) gallwch gysylltu â Sarah-Jane yn Ffilmie Matinee ar (0222) 645223.

Os fuoch chi yn un o'i sioeau y '60au' yn ddiweddar fe fyddwch yn siwr o fwynhau'r noson hon o gerddoriaeth mwy diweddar.

Yn gywir,
CARYS HALL EVANS
Ffilmie Matinee

**Y Dinesydd Gorffennaf**

**Dylid anfon adroddiadau, erthyglau a newyddion at y golygydd, Catrin Lloyd Rowlands, 15 Branwen Close, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4NE erbyn Gorffennaf 1. Ffôn: 0222 598243**

## A'R PETH ARALL

# O'R DDINAS I'R DREF

Tristwch mawr i blant, staff a rhieni Ysgol Gymraeg Treganna oedd clywed fod Mr Peter Davies yn ymadael â'r ysgol diwedd y tymor. Bu'n Bennaeth ers Medi 1990. Cyn hynny, ef oedd y Dirprwy Bennaeth ers symud o Henffordd i Dreganna yn 1989.

Dymunwn yn dda iddo, a'i longyfarch ar ei benodiad fel Pennaeth Ysgol Gymraeg Penarth, i olynu Mr Howard Goodfellow. Diolchwn i Mr Davies am ei holl waith, a'i longyfarch ar lwyddiant Ysgol Gymraeg Treganna. Mi fydd Ysgol Gymraeg Penarth yn elwa, ond fe fydd Ysgol Gymraeg Treganna ar ei cholled.

Yn gywir
**BLEDDYN JONES**
Rhiant, Ysgol Gymraeg Treganna

# CYSTADLEUAETH TLWS PAT NEILL 1994

Gwahoddaf chi i yrru cerddi gan blant eich ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol gyfredol i'r gystadleuaeth uchod. Gweinyddir hi gan **Barddas** ar ran ei noddwr, Mr Pat Neill, Cross Inn, ger Llandysul.

Prif wobr y gystadleuaeth fydd cadair fechan a gwobr ariannol. Cyflwynir hi i'r enillydd yn y Babell Lên, Castell Nedd, 5 Awst eleni. Cynigir gwobr ariannol hefyd i'r plant y gosodir eu cerddi yn y dosbarth cyntaf. Cyflwynir tystysgrif i bob enillydd ac i bob ysgol fydd yn danfon pump cerdd a mwy i'r gystadleuaeth.

Y beirniaid eleni fydd Mrs Zorah Evans, Tregarth a Dewi Jones, Benllech, Ynys Môn. Y dyddiad cau fydd dydd Sadwrn, 18 Mehefin, 1994. Dylid rhoi ffugenw wrth pob cerdd ac enw a chyfeiriad cartref ac ysgol pob ymgeisydd mewn amlen gyda'r gerdd. Ni chaniateir cywaith. Dylid anfon y cerddi ataf fi, Dafydd Islwyn, Ysgrifennydd Barddas, Teifi, 106 Heol Llancayo, Bargoed, Canol Morgannwg, CF8 8TP

Cefnogwch y gystadleuaeth.

# Apêl Dinesydd 2000

***Tanysgrifiwch £15 i Dinesydd 2000***

Llenwch y ffurflen, ei rhoi mewn amlen a'i dychwelyd at Dinesydd 2000, ℅ Surrexit Cysylltiadau Torfol, Rhadbost - Freepost, Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 1ZZ

Dymunaf gyfrannu i Dinesydd 2000
☐ £15 ☐ swm arall
(nodwch faint) £________

Enw: ..........

Cyfeiriad: ..........

..........

..........

Rhif ffôn: ..........

Dymunaf dalu â siec ☐ ticiwch yma os dymunwch gael derbynneb am eich siec ☐
archeb banc ☐ (llenwch gyferbyn)

***Archeb Banc***

I Fanc ccc ..........
Cangen ..........

Byddwch cystal â thalu i Fanc y National Westminster, 10 Heol Hendre, Pencoed, Penybont ar Ogwr, Morgannwg Ganol CF35 5NW (Rhif côd didoli 60-16-48) i gredyd Dinesydd 2000 rhif 56401388, y swm o £_____ i ddechrau ar __/__/__ ac wedyn bob blwyddyn/6 mis (dilëwch fel bo'r angen) hyd nes y derbyniwch rybudd pellach gennyf/ gennym, a debydu fy/ ein cyfrif yn unol â hynny.

Cyfrif i'w ddebydu ..........
Rhif y cyfrif ..........
Llofnod (ion) ..........
Dyddiad ..........

Cyhoeddir gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau a'r Swyddfa Gymreig.

NEWYDDION

## YR EGLWYS NEWYDD

- Bu Ysgol Melin Gruffydd yn fuddugol yn Eisteddfod Sir yr Urdd yng nghystadlaethau'r parti unsain a'r côr dan 12, a bu un o'r disgyblion, Bethan Evans, yn fuddugol yng nghystadleuaeth y llefaru unigol 8-10 oed. Hefyd, bu nifer o ddisgyblion o'r ysgol yn fuddugol yn y cystadlaethau celf a chrefft: Andrew Goodenough (gwaith creadigol 2D, 8-10 oed; Tegerin Rhys (gwaith creadigol 2D, 10-12 oed); Joel Strange (gwaith creadigol 3D, 8-10 oed); Rhian Edwards (gwaith creadigol 3D, 10-12 oed); Bethan Jenkins a Rosemary Hann (gwaith creadigol cywaith dan 12 oed); Gareth Lewis (crochenwaith, 10-12 oed); Geraint Lewis (crochenwaith, 10-12 oed); Emma Lewis (tegan meddal, 8-10 oed); Mark Davies (ffotograffiaeth, 10-12 oed); Geraint Manning a Mathew Daniel (dylunio a thechnoleg, 1012 oed). Llongyfarchiadau i bawb, a phob hwyl yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nolgellau.
- Cydymdeimlwn ag Arthur Evans, Bishops Road, ei chwiorydd Eleri a Joanna, a'r holl deulu, ym marwolaeth eu tad yn ddiweddar.
- Llongyfarchiadau i Emyr Daniel ar gael ei benodi'n rheolwr–gyfarwddwr y cwmni teledu annibynnol Opus.
- Estynnwn ein cydymdeimlad i Aled Gwyn, Heol Wingfield, ei frawd, T. James Jones, a'r teulu i gyd, yn eu profedigaeth o golli tad yn ddiweddar.
- Bydd Cylch Meithrin Treoda yn cynnal Noson Gwis yn neuadd Ysgol Melin Gruffydd nos Iau, 9 Mehefin.
- Bydd Ffair Haf a Barbeciw Ysgol Melin Gruffydd nos Wener, 1 Gorffennaf, am 6 o'r gloch. Y thema eleni fydd Sam Tân!

## O ARDALOEDD ERAILL

- Llongyfarchiadau i Peter Davies, prifathro Ysgol Treganna, ar gael ei benodi'n brifathro Ysgol Penarth i olynu Howard Goodfellow, a fydd yn ymddeol ddiwedd tymor yr haf.
- Llongyfarchiadau i Aled Prys Williams a Sara Evans o Ysgol Gyfun Gymraeg Glan-taf ar ennill ysgoloriaethau mynediad i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.
- Llongyfarchiadau i Alun Ceri Jones a Linda ar enedigaeth Wiliam - brawd bach i Daniel, Sera a Padrig.

**COFIWCH ANFON NEWYDDION, MAWR A MAN, I'R DINESYDD**

15 Branwen Close, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4NE

## LLANDAF

Mae'r gwanwyn yn y tir - o'r diwedd! Y Llain yn Llandaf yn hardd, y lawntiau wedi'u torri gan adael arogl wledig o'n cwmpas. Y coed yn glasu a chôr y wig yn fyddarol yn y bore bach.

Prin yw'r newyddion, ond, y mae un digwyddiad digon dibwys ar un olwg, ond sy'n cythruddo unrhyw Gymro neu Gymraes, fel mater o egwyddor.

Ymhen ychydig ddyddiau bydd Côr y Gadeirlan yn recordio disc gyda'r cwmni Cantoris o'r gerddoriaeth berfformiwyd yn yr Arwisgiad chwarter canrif yn ôl. Clywais si bod y côr wedi gwrthod canu unrhyw eitem yn y Gymraeg, ac felly, mi fydd y record araethiedig yn adlewyrchiad cywir o'r hyn a ganwyd yng Nghaernarfon yn 1969. Digwyddais weld yr organydd tra'n cerdded yn y pentref. Gofynais iddo ai gwir y si. Ie, ni theimlai unrhyw deyrngarwch na dyletswydd i ganu yn y Gymraeg. Diffyg amser i baratoi oedd un rheswm; cynigiais fynd i'r ymarferiadau i'w hyfforddi i ynganu yn y Gymraeg. Gwrthododd y cynnig hwnnw. Dwedodd nad oedd yr un o'r cantorion yn siarad Cymraeg nac yn dysgu Cymraeg yn yr ysgol. Cwynodd nad yw cyfansoddwyr Cymru yn ysgrifennu gweithiau yn Lladin, yr iaith y mae'r côr yn gyfarwydd â hi. Dwedais bod gwreiddiau'r iaith Gymraeg yn Lladin, ac os yw'r côr mor gyfarwydd â chanu yn Lladin, mai mater hawdd a syml fyddai canu'n Gymraeg. Nid oedd yn amgyffred nac yn deall y ddadl - er imi ddweud "a ydi a, ac e ydi e."

Synhwyrais nad oedd diben parhau a'r sgwrs ac yn gwrtais ffarweliais â'r gŵr, ond gan fynegi fy nghofid a'm siom. Rhyfedd o fyd!

- Ein cydymdeimlad â theulu y diweddar Mrs Maris Eleanor Jones a fu farw ym mis Ebrill. Roedd Mrs Jones yn wreiddiol o Landudno, ac yn briod â'r diweddar Griffith John Jones.
- Llongyfarchiadau i Mr D. J. Davies ar ei ben blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Mae mor heini ag erioed,ac os rhywbeth yn brysurach heddiw nag yr oedd pan ar staff Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan.

## CYMDEITHAS GYMRAEG RHIWBEINA

- Ar Ebrill 11, ymunodd y Gymdeithas â Chymdeithas Gymraeg Dinas Powys ar gyfer cwis o dan ofal Rowland Owen ac Alun Daniel. Cawsom groeso twymgalon, a chyfle i wneud ffrindiau newydd ac i adnewyddu sawl hen gyfeill-garwch.
- Dim ond ychydig o seddau sydd ar ôl i'r cinio blynyddol yn y Deri ar Orffenaf 21. Y cyntaf i'r felin.....
- Rydym i gyd wedi gweld eisiau Annette Davies, Greenfield Road yn y misoedd diwethaf yma oherwydd salwch hir ei gŵr, Bill. Rydym yn danfon ein dymuniadau da i'r ddau ohonynt.
- Tristwch oedd clywed bod Aerona Warrington, Grove Place wedi colli ei thad. Rydym i gyd yn cydymdeimlo'n fawr ag Aerona, a'i mam a'r teulu i gyd yn eu hiraeth.
- Mae llythyron oddi wrth Gwilym Roberts ym Mhatagonia yn dal i ddisgyn fel conffeti drwy ddrysau Rhiwbeina. Mae'n amlwg ei fod yn mwynhau'r dysgu, y paratoi, y bywyd cymdeithasol, y teithio - a'r llythyru! Mae'n anodd gwybod sut mae e'n cael amser i gysgu. Mae'n danfon ei gofion cynhesaf i bawb yn Rhiwbeina a Chaerdydd. Bydd yn ôl yn ein mysg cyn bo hir iawn.

## Y BONTFAEN

- Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Emlyn George ar ddathlu eu priodas aur. Cawsant ddiwrnod i'w gofio pan ddaeth ffrindiau a theulu ynghyd i Gapel y Maendy ac yna i barti yn eu cartref.
- **Merched y Wawr** -Yng nghyfarfod mis Ebrill o Ferched y Wawr bu Elenid Jones o Cymorth Cristnogol yn sôn am ei gwaith a'i thaith i Somalia a Mali. Roedd yn ysbrydoliaeth i bawb a fu'n gwrando arni. Yn ystod mis Mawrth bu'r merched yn chwarae ceilys ym Mhen y Bont a bu llond bws mini ohonynt yn Theatr y Miwni ym Mhontypridd yn gweld "Moch Bach, Clustiau Mawr". Mae croeso bob amser i aelodau newydd.
- Llongyfarchiadau i'r plant o Ysgol Iolo Morganwg a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn Nolgellau.

# CYMRO CADARN

*Teyrnged i Elvet Thomas, a fu farw brynhawn Llun, 16 Mai 1994 , yn 89 oed*

*"Yn y tri-degau roedd yng Nghaerdydd ŵr ifanc, W.C. Elfet Thomas, a oedd yn athro'r Gymraeg yn Ysgol Uwchradd y Bechgyn, Cathays.Sefydlodd Adran o'r Urdd a daeth yn arweinydd ar gant o aelodau mewn byr amser. Prin iawn oedd y Cymry Cymraeg yn eu plith, ac i bob pwrpas Adran o Ddysgwyr oedd hon. Serch hynny, nod yr arweinydd oedd cael llawer o'r bechgyn i siarad Cymraeg yn rhugl a darganfu fod amrywiol weithgareddau'r Urdd yn gymorth mawr iddo ochr-yn-ochr â gwersi ffurfiol yr ysgol...*

*"Roedd rhywbeth arbennig iawn o gwmpas yr athro ifanc hwn. Meddai ar ddawn anghyffredin i ddenu ac arwain bechgyn...Yn wir, daeth Cymru gyfan i'w barchu a'i edmygu am ei waith gorchestol yn dysgu Cymraeg i fechgyn a ddeuai o gartrefi cwbl Saesneg. Diddorol yw sylwi fel y daeth llawer o'r rhain yn Gymry Cymraeg da, rhai ohonynt yn arbenigwyr yn yr iaith ac yn flaenllaw ym mywyd Cymru... Daeth y rhain, a llawer rhagor heb sôn am gynifer o Gymru Cymraeg - o dan hudlath Elvet Thomas... Rhoddai llu o athrawon heddiw lawer iawn am gael gwybod beth oedd cyfrinach fawr W. C. Elfet Thomas yn y dyddiau pell-yn-ôl hynny.*

Dyna sut y disgrifiodd R. E. Griffith gyfraniad Elvet Thomas i fywyd Cymru, yn ei gyfrol gyntaf ar hanes Urdd Gobaith Cymru, 1922-1945. Cyhoeddwyd y gyfrol honno ym 1971, ddwy flynedd ar ôl i Elvet ymddeol, wedi bod wrthi am ddeugain mlynedd bron yn addysgu'r Gymraeg yn Ysgol Cathays. Y mae'r llyfr hwnnw yn haeddu ei ddarllen o hyd, ond heddiw y mae'n amser cofnodi peth o gyfrinach Elvet Thomas - "Tossie" i ni'r bechgyn a mynegi rhywfaint o'r diolch sydd yn ddyledus iddo ar ran y rhai a gafodd y fraint o'i adnabod fel athro, a derbyn ganddo ei gariad at yr iaith Gymraeg a'r diwylliant a'i cynhaliai yn ystod y cyfnod hwnnw.

Yr oedd Elvet yn athro da. Gwyddai fod trefn a disgyblaeth yn greiddiol i'w holl waith. Mynnai fod ei ddisgyblion yn parchu ei reolau ond dangosai inni ei fod yn parchu ein hanghenion ninnau i'r un graddau:

*"Pe bai egin-athro yn gofyn i mi ar ddechrau ei yrfa am gyngor mi ddywedwn wrtho am wneud ei orau, yn anad dim, i sicrhau bod ei ddisgyblaeth yn ddiogel... Fy mhrofiad i ar hyd y blynyddoedd yw fod plant nid yn unig yn parchu disgyblaeth, ond yn ei hoffi - dim ond iddi fod yn deg."*

Yr oedd hefyd yn athro'r ail filltir. Nid gwaith oedd dysgu'r Gymraeg iddo fe, ond galwedigaeth, llafur cariad. Nid amserlen a ddilynai ef ond ei oleuni a'i lwybr ei hunan. Nid athro iaith yn unig oedd ef. Ymhob dim a wnai, cyflwynai ei wlad a'i genedl gyfan.

Gwyddai pawb o'r bechgyn mai cymeriad unigryw oedd Tossie. Wrth gwrs, i'w disgyblion yn yr ysgol ramadeg, cymeriadau cryf a gwahanol bob un oedd holl athrawon yr ysgolion gramadeg, pobl i'w hofni neu i'w haddoli bob yn ail. Ond roedd Tossie yn eithriad hyd yn oed ymhlith ei gyd-athrawon. Cynrychiolai mwy na'i bwnc. Ef oedd Cymru i blant Cathays - Cymru yn ei gorffennol gwych a'i dyfodol disglair, dichonadwy, yn ogystal â Chymru yn ei phresenoldeb distadl.

Yr oedd yn amlwg ei fod am draddodi i holl fechgyn yr ysgol honno ei falchder yn ei wreiddiau Cymraeg ac fe gynigiai ei hunan yn batrwm inni. Yr oedd yr un mor amlwg nad oedd eu gwreiddiau Cymraeg yn cyfrif dim i'r rhan helaethaf o'i gyfoedion, i relyw'r athrawon y tu mewn i furiau'r ysgol nac i'r rhan fwyaf o'r rhieni a'r cyflogwyr y tu allan i'r ysgol. Yr oedd Elvet yn gwbl unplyg; yn barod i sefyll ei dir a gweithio yn erbyn y llif, achos dyna'n syml oedd gwaith athro Cymraeg yn ystod y deugain mlynedd rhwng 1930 a 1970...

...Yn y dyddiau hynny, yn nyddiau'r Ymerodraeth Brydeinig, cyn bod y sefydliad addysgol a'r cyhoedd yn gyffredinol yn derbyn bod i'r Gymraeg le o gwbl yn eu bywydau, yr oedd digonedd o athrawon yn ysgol ramadeg Cathays - yn ogystal ag mewn ysgolion uwchradd eraill led-led Cymru, ddeallais i wedyn - a oedd wedi dod i'r penderfyniad di-droi'n ôl yn ystod eu llencyndod na fyddai i'r Gymraeg le yn eu bywydau personol, gan na ddeuai'r iaith honno, iaith eu tadau a'u mamau eu hunain, ag unrhyw fantais cymdeithasol iddynt yn y byd Saesneg oedd ohoni...

...yn y dyddiau hynny, mewn ardal ddi-Gymraeg fel Caerdydd, cyn cyffro Cymdeithas yr Iaith, a gyrhaeddai bob pentref a stad o dai yng Nghymru, cyn dyddiau'r dulliau dysgu llafar, blaengar, cyffredinol a gyrhaeddai bron pob ysgol yn y wlad (dau fudiad a gafodd eu sefydlu a'u datblygu, i raddau helaeth, gan ddisgyblion blaengar ei hun, megis Bobi Jones a Tedi Millward, yn ystod y chwedegau)...

...yn y dyddiau hynny, mewn ysgol ramadeg, pan oedd yn rhaid i'r athro Cymraeg gyflwyno'r iaith Gymraeg yn ei ffurf fwyaf coeth a disgybledig, ei chyflwyno'n iaith glasurol, yn iaith beirdd a chantorion, yn iaith gwrol ryfelwyr a chadarn wladweinwyr, yn iaith enwogion o fri, yn hytrach nag yn iaith coliars ac yn weision ffermydd, gan mai cynnig cyfle i'r bechgyn "ddod ymlaen yn y byd" oedd pwrpas ysgol ramadeg...

...yn y dyddiau hynny, rhaid fod penderfyniad di–ildio Elvet a'i lwyddiant tawel, parhaus, yn dan ar groen pob un o'r Cymry gwrth-Gymraeg. Yr un pryd, rhaid fod cerddediad sicr Elvet, dros nifer o flynyddoedd, wedi cynnig llwybr llawer haws ei ddilyn i nifer eraill o Gymry ifainc yng Nghaerdydd oedd yn dal yn barod i arddel eu tras Cymraeg ac i arddangos eu medr yn yr iaith.

Erbyn y pum-degau yn sicr, yr oedd gan Elvet ei le sicr ei hunan o fewn yr ysgol, yn bennaeth adran llwyddiannus, cydnabyddedig, ac yn ddirprwy-brifathro uchel ei barch trwy'r ddinas a'r genedl. Roedd yn rhaid i bob disgybl ei barchu am ei urddas a'i gariad at ei iaith a'i genhadaeth drosti. Waeth beth oedd ein hymateb i'r gwersi Cymraeg a'r profiad o ymrafael a dirgelion gramadeg a chystrawen yr iaith glasurol a gyflwynid inni, yr oedd yn annwyl gennym i gyd achos roeddym yn gweld yn glir ein bod yn cyfrif yn ei olwg. Nyni oedd darpar Gymry'r dyfodol. Nid oedd am golli'r un ohonom. Roedd yn rhaid i bob un ohonom, felly, benderfynu a oedden ni am fod yn Gymry ai peidio.

*Parhad ar tud 11*

## NODWEDD

**Colofn reolaidd sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r cyffiniau**

# TRIBANNAU CAERDYDD

**gan E. Wyn James**

Un o nodweddion pennaf tribannau Morgannwg yw eu brogarwch. Fel y dywed yr Athro G. J. Williams, 'Canfyddir ynddynt... gariad mawr at Forgannwg a'i phethau - pentrefi gwyngalchog y Fro, hen gartrefi'r Blaenau, rhadlonrwydd a llawenydd a gwarineb ... Cânt hwyl wrth fydryddu enwau lleoedd, fel petaent yn eu hanwesu - ni chredaf fod yr ymdeimlad hwn mor amlwg yng nghanu gwerin yr un rhanbarth arall.'

Yn 1975 cyhoeddodd Tegwyn Jones gasgliad helaeth o dribannau dan y teitl *Tribannau Morgannwg*. Ysywaeth, er bod enwau lleoedd lu i'w gweld yn nhribannau'r casgliad, mewn dau driban yn unig y gwelais enw Caerdydd.

Mae llawer o hiwmor a digrifwch yn perthyn i dribannau Morgannwg, a gwelir hynny'n glir yn y cyntaf o'r ddau driban sy'n enwi Caerdydd. Mae'n gerdd ffwlbri nid annhebyg i'r math o gerddi a gysylltwn ag Edward Lear yn Saesneg, dyweder, neu Idwal Jones yn Gymraeg. Y mae hefyd yn perthyn i'r dosbarth helaeth hwnnw o dribannau sy'n agor â'r geiriau 'Mi welais' neu 'Mi welaf' (neu ryw amrywiad tafodieithol arnynt, megis 'Fi welas' neu 'Fi wela'):

Mi welas ddwy lygotan
Yn llusgo *coach* yn llawan,
O Gaerloyw i Gaerdydd
A Dic y Crydd yn *goachman.*

Un o nodweddion caneuon y werin yw eu bod, wrth fynd ar led ar lafar, yn magu amrywiadau. Ac felly yn achos y triban hwn, oherwydd ceir fersiwn arall arno a'r goits yn dod, nid dros y ffin o'r dwyrain, ond o Ewenni yn y gorllewin, gan gludo peth o grochenwaith enwog y pentref hwnnw:

Mi welais ddwy lygotan
Yn llusgo *coach* yn llawan,
O Ewenni i Gardydd
Â llestri pridd a halan.

Fel yn achos y tribannau yn gyffredinol, mae tinc tafodieithol amlwg i'r triban hwn, fel y tystia ffurfiau megis 'llygotan', 'llawan', ac yn y blaen. Ond bu llawer o safoni ar iaith y tribannau wrth eu trosglwyddo o'r llafar i bapur, a dyna sy'n cyfrif, mae'n siŵr, am y ffaith mai 'Caerdydd' yw'r ffurf ar yr enw yn y fersiwn cyntaf o'r triban hwn, tra mai'r ynganiad tafodieithol 'Cardydd' a ddiogelwyd yn yr ail. (Fel arall y mae hi yn achos y llinell gyntaf, gan mai 'welais' sydd yn yr ail fersiwn a 'welas' yn y fersiwn cyntaf!)

Yn ei gasgliad, mae Tegwyn Jones yn nodi amrywiad arall eto ar y triban hwn. Mae'r sôn am lestri pridd yn parhau, ond y tro hwn mae man cychwyn y daith wedi symud ymhellach i'r gorllewin, i Gaerfyrddin, a'r iaith wedi'i safoni drwyddo. Yn ôl y sôn yr

*Parhad ar tud 11*

Dyluniwyd gan Androulla Cleovoulou 0633 220985 ● Argraffwyd yng Nghaerdydd gan Hartleys Printing Co 0222 460636

## YSGOLION

## Glantaf yn bymtheg oed

Mae'n siwr y byddai'r cynulleidfa gyfan yn Neuadd Dewi Sant, nos Iau, Ebrill 28yn gytun bod Ysgol Glantaf wedi dathlu ei phymthegfed penblwydd mewn modd arbennig iawn. Cyflwynwyd y noson gan Mr. J E Malcolm Thomas, prifathro'r ysgol, a atgoffodd y gynulleidfa o dwf a ffyniant addysg uwchradd Gymraeg yng Nglantaf. Mae'r 99 o ddisgyblion oedd yn yr ysgol pan y'i hagorwyd yn 1978 bellach wedi cynyddu bron i ddeuddeg cant.

Cafwyd cyngerdd amrywiol a chofiadwy. Yn ystod y rhan gyntaf perfformiwyd gweithiau gan Haydn, Mathias, Faure a Vivaldi. Lois Davies, cyn-ddisgybl Ysgol Glantaf oedd yr unawdydd telyn. Y ddau unawdydd yn y 'Concerto i Ddau Utgorn' oedd Branwen Gwyn ac Alun Gruffudd, dau o ddisgyblion amryddawn yr ysgol. Roedd y Côr Unedig yn cynnwys dau gôr yr ysgol, côr rhieni Glantaf, Côr Philharmonic Caerdydd a Chôr Philharmonic Casnewydd y cyfan o dan arweiniad medrus Mr Alun Guy, Pennaeth Adran Gerdd yr ysgol. Roedd y gerddorfa yn cynnwys disgyblion, rhai mor ifanc â blwyddyn 7, a ffrindiau'r ysgol.

Yn ystod yr ail ran perfformiwyd y 'Requiem yn D Leiaf' gan Mozart. Yr unawdwyr oedd y soprano Delyth Medi Jones, enw cyfarwydd iawn ym myd yr eisteddfodau ac athrawes yn Adran Gerdd yr ysgol; y contralto Elizabeth Stevens, yn enedigol o Gaerdydd; y tenor Peter Hoare, cyn-aelod o gorws Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru; a'r bas Anthony Stuart Lloyd, cyn-ddisgybl o'r ysgol ac enillydd y Rhuban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth yn 1992. Roedd y perfformiad gwych yna yn glo teilwng ar noson hyfryd.

## Campau Glantaf

### Rygbi

Enillwyd cystadleuaeth 7 bob ochr Cwpan Ysgolion Cymru dan 16 oed gan dim Ysgol Glantaf. Enillodd Andrew McDonagh y tlws fel chwraewr gorau'r gystadleuaeth.

Enillodd tîm Glantaf Cwpan Ysgolion Caerdydd yn erbyn tîm arbennig o dda o Ysgol Corpus Christi.

### Pêl Fasged

Timoedd Ysgol Glantaf oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth De Morgannwg dan 13, 14 a 15 oed.

Llongyfarchiadau i Aled James a Luke Stanwyck ar ennill capiau.

### Hoci

Llongyfarchiadau i Nia Jones a Sharyn Crayford ar gael eu dewis i chwarae dros Dde Morgannwg yn y tîm dan 15 oed.



'Dyma lun o dim Rygbi Gynradd Ysgol Gymraeg Penarth a enillodd cystadleuaeth Rygbi Cynradd yr Urdd yn Ne Morgannwg 1994. Mi fydd y bechgyn yn awr yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Sir yn Nghystadleuaeth Rygbi Cenedlaethol yr Urdd yn Llanelli.

Hoffei Pwyllgor Sir yr Urdd yn Ne Morgannwg ddymuno'n dda i Howard Goodfellow sydd hefyd yn y llun ar ei ymddeoliad a diolch o waelod calon iddo am ei flynyddoedd o waith gwirfoddol dros yr Urdd yn y Sir.

Eleni am y tro cyntaf yn Eisteddfod Sir Cynradd yr Urdd yn Ne Morgannwg, cyflwynwyd 'Tlws Howard Goodfellow' fel gwerthfawrogiad o'i wasanaeth. Cyflwynwyd y tlws i'r Côr buddugol yr Eisteddfod Sir ac gwneir hynny'n flynyddol o 'leni 'mlaen.




Ar Ebrill 22ain derbyniodd plant Blwyddyn 4, Ysgol Gymraeg Penarth wobr o hanner canpunt a thystysgrif wedi ei fframio mewn seremoni wobrwyo yn Neuadd Goffa Y Barri.

Anelwyd y gystadleuaeth at ysgolion Bro Morgannwg er cryfhau ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a gynigir yn y clinigau lleol a'r canolfannau iechyd.

Trefnwyd i'r dosbarth ymweld â'r ganolfan iechyd leol i gwrdd â'r gweithwyr yno, a cheisiwyd cyfleu gwaith y bobl hyn yn ein murlun.

Llawenydd mawr oedd clywed iddynt ennill y wobr gyntaf yng nghategori yr Ysgolion Cynradd.



## ENILLWYR CYNTAF

Dyma lun o ddisgyblion cyntaf yn Ysgol Uwchradd Willows, Tremorfa i ennill tystysgrif Acen 292. Mae'r chwech ym Mlwyddyn Deg, a'u henwau yw Craig Bridgeman, Samantha Jordan, Christopher Fotheringham, Mark Dance, Neil Lewis a Darren Hayde.

# DYSGU CYMRAEG

dan ofal Mair ac Alun Treharne

## GWYLIAU - PETHAU I'W GWNEUD CYN MYND

Mae Jac ar fin mynd ar ei wyliau. Yma, mae e'n sgwrsio â'i gymydog, Tom.

Tom: Rydych chi'n mynd fory, 'te.
Jac: Ydyn. Pythefnos o wyliau yn yr haul, gobeithio!
Tom: Alla' i wneud rhywbeth i helpu yn ystod y pythefnos nesa'?
Jac: Gelli. A fyddet ti mor garedig â symud y post a phapurau rhad ac am ddim *(free newspapers)* o'r cyntedd bob dydd? Rydw i wedi canslo'r papurau dyddiol a'r llaeth, wrth gwrs.
Tom: Dim problem. Fe ddo' i draw i edrych o gwmpas bob dydd i wneud yn siwr bod popeth yn iawn. Fydd y car yma?
Jac: Bydd. Rydyn ni'n bwriadu cael tacsi i'r maes awyr.
Tom: Fe gadwa' i olwg ar y garej hefyd, 'te.
Jac: Rydw i wedi rhoi gwybod i'r heddlu y byddwn ni oddi cartref *(away from home)*. Rydw i wedi prynu amserydd *(timer)* fel yr un sy 'da ti, fel bod golau 'mlaen yn y tŷ gyda'r nos.
Tom: Rydw i'n gweld dy fod ti wedi torri'r lawntiau i gyd cyn mynd. Fe dorra' i'r lawnt ffrynt i ti eto mewn wythnos. Oes cyfeiriad neu rhif ffôn 'da ti rhag ofn y bydd angen i ni gysylltu â thi?
Jac: Oes. Fe gei di'r manylion heno cyn i ni fynd.

## DARLUNIAU BYW



Y to ifanc

Y to ifanc: Y genhedlaeth ifanc (the young generation).

E.e. Mae'r to ifanc bob amser yn mynnu dilyn ei lwybr ei hun.

Arlunwaith gan Cen Williams *(Darluniau Byw, Gwasg Gomer, 1990)*

## RHAID I MI BEIDIO ANGHOFIO

Gorffennwch restr atgoffa Jac drwy ddefnyddio rhai o'r geiriau/y-madroddion:

**cyfeiriad; lawnt; heddlu; ffôn; dyddiol; amserydd; cloi; gyda'r nos; rhad ac am ddim; papurau**

Dylwn i ganslo'r __________ dyddiol a'r llaeth.

Dylwn i roi gwybod i'r __________.

Dylwn i ofyn i Tom symud y post a phapurau __________ o'r cyntedd.

Dylwn i ddefnyddio'r __________ newydd i gynnau a diffodd goleuadau yn y tŷ.

Dylwn i drefnu i rywun - Tom, efallai! - dorri'r __________.

Dylwn i adael cyfeiriad a rhif __________ rhag ofn y bydd angen i rywun gysylltu â ni.

Dylwn i gofio __________ pob drws a ffenestr.

## TY' R CYMRY

Cyfle i' r Dysgwyr

Fel y bu ers bron trigain mlynedd, pery TŶ'R CYMRU yn ganolfan i nifer o fudiadau Cymraeg y ddinas . Yn ogystal â hynny, datblygodd yn ganolfan hwylus i amrywiaeth o ddosbarthiadau Cymraeg, yn bennafi ddysgwyr. Ar hyn o bryd, mae' r canlynol ymhlith y gweithgareddau:

Ysgol Feithrin Gymraeg yn ddyddiol
Mam a ' i Phlentyn
Grwp Cymraeg i Rieni ' r Feithrin
Tri Dosbarth Cymraeg yr wythnos i ddysgwyr gan Gymdeithas yr Iaith
Dosbarth WEA ar Y Cymry a'u Llenyddiaeth
Cymdeithas Tŷ'r Cymey,yn fisol
ac eraill, yn ysbeidiol


Hyd at y llynedd, 'r oedd Grwp Cam Ymlaen yn cyfarfod yn gyson yn y Ty. Grwp oedd hwn a sefydlwyd gan ddysgwyr i hyrwyddo cyfle i ddysgwyr o bob lefel gymdeithasu yn y Gymraeg. Y grwp hwnnw yn awr yw sylfaen Cymdeithas Ty'r Cymry a'r dysgwyr gynt wedi dod yn rhugl Gymraeg.

Fis Medi 1994, ail sefydlir Grwp Cam Ymlaen i roi cyfle i ddysgwyr a fun mynychu dosbarthiadau Cymraeg yn y ddinas barhau i gyfarfod ei gilydd, a dysgwyr o ddosbarthiadau eraill . Mae' n gyfle gwych i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg. Dwy bunt y flwyddyn yw tâl aelodaeth y Tŷ.

Efallai y carai tiwtoriaid y dosbarthiadau Cymraeg ymholi ar ran eu myfyrwyr.

Anfoner air at Ysgrifennydd Tŷ ' r Cymry
11 Heol Go rdon, Y Rhath, CF2 3AJ
neu ffonio: 491123 / 4836469 / 450167

## EDRYCH YMLAEN



## *Achlysur Arbennig i Fachgen Arbennig*

Mae'n bleser 'da ni yn Ysgol Gymraeg Sant Curig, Y Barri nodi ein bod fel ysgol wedi casglu £3,118.61 trwy wahanol weithgareddau ac achlysuron arbennig er mwyn anfon un o'n disgyblion, James, i Ysbyty Peto yn Hwngari. Drwy haelioni ffrindiau a chwmniau lleol, codwyd yn gyfangwbl £6,500 at y pwrpas hwn.

Cafodd James Yorke Wade ei eni gyda Cerebral Palsy ymysg llawer o afiechydon eraill. Er hyn, mae e'n fachgen annwyl a chariadus ac yn awyddus i ddilyn bywyd llawn. Dymunwn pob llwyddiant iddo ar ei daith i Hwngari lle bydd yn treulio'r mis nesaf yn cael triniaeth arbennig.



## Prifathro Hapus yn Dathlu Achlysur Pwysig

Mr Malcolm Thomas, (chwith), prifathro Glantaf, ynghyd a'i ddirprwyon, Mrs Iris Williams, Mrs Marian Wynne a Mr Ellis Griffiths ar achlysur dathlu penblwydd yr ysgol yn bymtheg oed. (Gweler tud 6 am ragor o'r hanes).

# YN DIGWYDD

## CYNGOR Y DDINAS YN CYNNAL EU CYFARFOD CYNTAF *DRWY'R GYMRAEG*

Cynhaliodd Cyngor Dinas Caerdydd eu cyfarfod cynta erioed drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg - arwydd pellach a charreg filltir bwysig yng nghais y Cyngor i ddatblygu Cynllun Iaith.

Cynhaliwyd Gweithgor yr Iaith Gymraeg yn y Gymraeg gan ddefnyddio offer cyfieithu-ar-y-pryd er mwyn galluogi swyddogion a chynghorwyr di-gymraeg i gyfrannu yn y trafodaethau.

"Y mae Cyngor Dinas Caerdydd yn benderfynnol y bydd lle priodol yn cael ei neilltuo ar gyfer yr iaith Gymraeg o fewn y gwasanaethau eang", meddai Cadeirydd Gweithgor yr iaith Gymraeg y Cynghorydd Elaine Morgan. "Y mae aelodau'r Gweithgor yn teimlo mai'r ffordd orau i ddangos ymrwymiad tuag at statws yr iaith Gymraeg yw drwy gynnal ein cyfarfodydd ein hunain drwy gyfrwng y Cymraeg - er bod aelodau di-gymraeg yn mynychu'r Gweithgor."

Ystyriwyd fod yr offer cyfieithu-ar-y-pryd a brofwyd gan y Gweithgor yn ddelfrydol ar gyfer Pwyllgorau o bob math a gellid ehangu ei defnydd i ieithoedd eraill er lles mudiadau a chymdeithasau sy'n defnyddio cyfleusterau Neuadd y Ddinas.

Darganfyddodd aelodau di-gymraeg pa mor rhwydd oedd defnyddio'r cyfarpar arbennig i'w galluogi i gyfrannu'n ddigon rhwydd yn y trafodaethau. Yr oedd y Cynghorydd Elaine Morgan wrth ei bodd gyda llwyddiant y cyfarfod ac fe ddywedodd ei bod yn edrych ymlaen at weld cyfarfodydd dwyieithog yn cael eu cynnal ar gyfer Pwyllgorau eraill y Cyngor.

## DAU ATHRO'N NEWID BYD

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mr Howard Goodfellow wrth iddo ymddeol o'i swydd fel Prifathro Ysgol Gymraeg, Penarth yn yr haf. Fe sydd wedi llywio tyfiant yr ysgol o'r cychwyn a mesur o'i lwyddiant yw'r ffaith bod mhell dros 300 disgybl ynddi yn awr. Mawr yw'r ddyled iddo am ei ymrwymiad â'r bywyd Cymraeg a cherddorol nid yn unig ym Mhenarth a'r cylch ond hefyd yng Nghaerdydd. Fe fydd her yn disgwyl ei olynydd

**Mr Peter Wyn Davies** sydd yn cymryd drosodd oddi wrtho. Fe fu yntau'n llwyddiannus fel Prifathro Ysgol Gymraeg Treganna ers iddi gael ei sefydlu bum mlynedd yn ôl. Yn ystod y cyfnod tyfodd nifer y disgyblion o 70 i 170 a mwy na chyfiawnhau agor Ysgol Pencae, y drydedd ysgol gynradd i wasanaethu gorllewin y Ddinas. Mae'n sicr y bydd Peter Davies yn gartrefol iawn yn ei swydd newydd. Fe fu'n byw ym Mhenarth ers rhai blynyddoedd. Pob dymuniad da iddo yntau hefyd.

## ATGOFION

## CEMEGWYR Y BYD YN ANRHYDEDDU CYMRO



Yr Athro J D R Thomas tu allan i Adeilad Redwood ym Mharc Cathays, Caerdydd lle bu'n gweithio am 30 mlynedd. Ef a awgrymodd yr enw 'Redwood' ar gyfer yr adeilad gan ei fod yn portreadu cyfraniad y teulu o Orchard House, Trebwfer, ger Llanilltyd Fawr i Wyddoniaeth.

Yn ddiweddar cydnabyddwyd cyfraniadau'r Athro J D R Thomas i'r pwnc Cemeg Dadansoddol, ac yn arbennig am ei gamp mewn electrocemeg dadansoddol, mewn cynhadledd ryngwladol o dan nawdd Y Gymdeithas Gemegol Frenhinol yng Ngholeg Caerdydd, Prifysgol Cymru. Pwysleisiwyd pwysigrwydd yr achlysur drwy i fwyafrif o'r siaradwyr ddod o wledydd tramor, hyd yn oed cyn belled ag Awstralia, Siapan a'r Unol Daleithiau.

Agorwyd y Gynhadledd gan yr Athro M Wyn Roberts, Pennaeth Yr Ysgol Gemeg yng Ngholeg Caerdydd, a rhoddwyd y Ddarlith Agoriadol ar J D R Thomas: Y Dyn, Ei Wyddoniaeth a'i Ddylanwad gan yr Athro Alan Townshend, Prifysgol Hull, ac sydd yn enedigol o Glydach, Dyffryn Tawe.

Yn ystod ei ddarlith tanlinellodd yr Athro Townshend i J D R (Ron) Thomas gael ei eni yng Ngharnaugwynion, Gwynfe, ac ar ddiwedd Medi 1994, sef hanner can mlynedd ar ôl gadael Ysgol Sirol Llanymddyfri i fod yn efrydydd cemeg yng Ngholeg Athrofaol Deheudir Cymru a Mynwy, y byddai yn ymddeol o swydd Athro Cemeg yng Ngholeg Prifysgol Caerdydd. Yn ystod ei yrfa bu'n gweinyddu yng ngwasanaeth trosglwyddiadau Gwaed y Corfflu Meddygol yn yr India, bu'n gweithio yn y byd diwydiannol, fe'u hyfforddwyd yn athro ysgol, ac yna bu'n athrawiaethu ac yn ymchwilio yn y maes cemegol am 40 mlynedd.

Yn ystod y 35 mlynedd y bu'n darlithio yng Nghaerdydd (treuliodd bum mlynedd yn Essex ac yng Nghasnewydd hefyd) daeth Ron â syniadau newydd i addysg drwy greu cyrsiau gradd a gwaith dyfeisiol ym maes cemeg dadansoddol. Cydnabyddodd Ron hefyd y pwysigrwydd o gydweithio â sefydliadau diwydiannol. Felly, cynorthwyodd i sicrhau fod Adran Gemeg Gymhwysol UWIST ar y blaen mewn sawl modd, ac atgyfnerthodd yr Ysgol Gemeg a Chemeg Gymhwysol yng Ngholeg Prifysgol Caerdydd pan y'i crewyd ym 1988.


Nid oes ofod yma i restru ei holl orchestion, ond mae Ron yn aelod gweithgar o'r Gymdeithas Gemegol Frenhinol - ymunodd â'r Gymdeithas fel myfyriwr dros hanner can mlynedd yn ôl. Bu'n gadeirydd yr adran leol yng Nghaerdydd, ac yr oedd yn llywydd yr Adran Gemeg Ddadansoddol o 1990 hyd 1992, a hyn yn ogystal â llawer o swyddi eraill. Ar hyn o bryd y mae'n aelod o Gyngor y Gymdeithas. Ym 1981, derbyniodd Ron Wobr a Medal Electrogemegol Ddadansoddol Y Gymdeithas Gemegol Frenhinol.

Drwy ddarlithio mewn gwledydd tramor cyflwynodd Ron Thomas i lu o'i wrandawyr wybodaeth am Gymru - dechreuai ei ddarlithoedd drwy ddangos sleidiau o Neuadd Dinas Caerdydd a Chanolfan Dinesig Caerdydd, ac yna atalnodi thema ei ddarlith drwy luniau o'r Mynydd Du, pontydd dŵr a rheilffyrdd ardal Wrecsam ac eglwysi yn cynnwys Sant Thomas, Mynwy.

Ond beth am y dyfodol? A oes ymlacio i fod i'r Athro? Erbyn hyn mae Ron a'i briod, Gwyneth, wedi ymgartrefu yn Gresford ger Wrecsam, ond digon prin y bydd yn llaesu dwylo. Bu'n brysur erioed - bu'n drysorydd Eglwys Y Tabernacl, Caerdydd am 21 mlynedd, ac ef oedd Ysgrifennydd Apêl Pensiynnau Gweinidogion Undeb Bedyddwyr Cymru yn y saithdegau. Yn union ar ôl y gynhadledd yn ei enw, aeth Ron i ddarlithio i Leeds mewn cynhadledd yn ymwneud â mesur dadansoddiadol bwydydd. Yn hwyrch yn y flwyddyn bydd yn darlithio yn yr Iwcrain, Romania a Hwngaria.

Mae Ron yn parhau i wasanaethu Y Gymdeithas Gemegol Frenhinol, a'i Adran Ddadansoddol. Ar hyn o bryd y mae'n rhoi cymorth i drefnu Wythnos Gemeg Prydain a gynhelir ym mis Tachwedd eleni. Cynrychiola Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru ar Lys y Brifysgol, a chynrychiola'r Llys ar Gyngor Coleg Meddygol Prifysgol Cymru. Mae hefyd yn cyfrannu yng ngwaith Fforwm Technoleg Meddygol Cymru ac ar Bwyllgorau Sefydliad Prydain Dros Safonau ar faterion amgylchyddol nwyddau.

# Y CROESAIR - AP LEWSYN RHIF 139



### AR DRAWS

6. Bum yn cyfathrebu wrth droi tacsi i fynd at y llys. (9)
8. Hyd a lled y cyfryw beth. (5)
10. Mae hi'n hen bryd i rai anhydrin ddod at y rhain o'r eiddynt. (4)
11. Triniaeth lem eich dau oen mewn griddfannau.(10)
12. Dilynwyr beirdd a cherddorion. (8,1,3)
15. Fe'i digroenwyd. (7)
16. Craith fy nghroen a adawyd gan weinyddiad y ddeddf. (7)
18. Bydd dolen fedi o wasanaeth mawr efallai. (12)
20. Nid malu celfi, ond eu maelio, yw eu gwaith. (10)
22. Gair ar y pryd. (4)
23. Nid da gormod ohono. (5)
24. Nid yw lled y pen. (9)

### I LAWR

1. Pla Hamelin gynt. (5)
2. Tynged ambell beth y bydd hynafgwr (fel y fi) wedi addo ei gyflawni. (4,2,4)
3. Desg i ni a allai berthyn i Gaerdydd, er enghraifft. (7)
4. Corlan yn Sir Gaerfyrddin sy'n eiddo i'r Goron. (4)
5. Daw arian i bobl wyllt a geir ymhob gwlad. (9)
7. Cwrs bywyd na chewch chi ar y draffordd. (6,2,4)
9. Fel hyn y bydd popeth a werthir yn ail-law. (4,6,2)
13. Rhoddodd sglein ar y coed. (10)
14. Cofl rownd wedi ei chymhwyso sy'n haeddu ein clod. (9)
17. Eto! (7)
19. Gwaedd un yn troi yn ôl i'r gladdfa. (5)
21. Eithaf iawn yn gywir. (4)

### DATRYSIAD 138



### CYSTADLEUAETH RHIF 138

Derbyniwyd un-ymgais-ar-ddeg, a naw ohonynt yn hollol gywir. Yr enw a dynnwyd i ennill y tocyn llyfr oedd eiddo Colin Murphy, 14 Cyntwell Avenue, Caerau, Caerdydd. Yr wyth arall oedd yn gywir oedd:- Gunston Jones, Penylan; Marged Davies, Llandaf; Heledd Hall, Treganna; Michael Francis, Casnewydd; Gwenda Hopkins, Llanisien; Carys Humphreys, Bangor; Huana Simpson, Y Bontfaen; a Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd.

### CYSTADLEUAETH RHIF 139

Tocyn Llyfr £5 eto. Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn Gorffennaf 5 os gwelwch yn dda.

# PROFFWYD

## DYRCHAFWN GRI



'Y mae'r Gymraeg yn marw! A wyt ti'n un o'r rhai sy'n ei gyrru i'w bedd?'

---

'Cymraeg ar yr aelwyd;
Cymraeg yn yr ysgol;
Cymraeg yn yr eglwys;
Diogeler hi yn y tri lle hyn a bydd fyw byth.'

---

'Y mae'n bwysig i ti ddiogelu dy gymeriad. Y mae'n llawn mor bwysig iti ddiogelu iaith dy famwlad. A gollo ei gymeriad neu iaith ei famwlad, a gyll ei hunanbarch.'

---

Awdur y geiriau proffwydol hyn yw **Lewis Valentine.** Fe'u cyhoeddwyd yn misolyn Y Tabernacl, Eglwys y Bedyddwyr, Llandudno. Ef oedd golygydd y cylchgrawn am y blynyddoedd 1923-36. 'Mentrus a bywiog' yw disgrifiad Y Parchg. Idwal Wynne Jones, Gweinidog presennol Y Tabernacl, o'r misolyn rhagorol hwn. A hawdd cytuno hefyd â barn John Emyr ei fod yn fath o 'bapur bro cynnar'.

Ac yntau'n weinidog ifanc ymroddedig ac yn genedlaetholwr yr un mor frwd, aeth Lewis Valentine ati i gyhoeddi yn *Y Deyrnas* rai o fyfyrdodau'r heddychwr H.E. Fosdick a meddylwyr Cristnogol eraill, ynghyd â gweddiau ac ysgrifau o'i waith ei hun, ar gyfer ieuenctid ac aelodau ei eglwys. A'r cyfan mewn Cymraeg coeth, graenus.

I ddathlu canmlwyddiant geni Lewis Valentine yn 1993 cyhoeddodd Gwasg Pantycelyn gyfrol, *Dyrchafwn Gri*, yn cynnwys detholiad o'r myfyrdodau, y gweddïau a'r ysgrifau hyn. Golygwyd hi yn ofalus gan Idwal Wynne Jones,ac y mae iddi glawr hardd o waith yr arlunydd, E. Meirion Roberts, cyfaill agos i Lewis Valentine. Ei phris yw £4.50.

I mi bu darllen y gyfrol hon yn foddion gras, ac rwy'n taer annog pawb sy'n caru Cymru, ei hiaith, ei diwylliant a'i chrefydd, i'w phrynu a'i thrysori, a thrwy hynny i ymateb i her un o broffwydi mawr yr ugeinfed ganrif.

**ROBIN GWYNDAF**

YN EISIAU

person proffesiynol i rannu fflat yn ardal Y Tyllgoed, Caerdydd. Am fanylion pellach ffonier (0222) 569411.

NEWYDDION

## ATHRAWES O GAERDYDD YN IS-LYWYDD UCAC



Etholwyd Jenni Jones-Annetts yn Is-Lywydd UCAC yn y Gynhadledd Flynyddol a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar. Fe'i henwebwyd gan Gymdeithas Sir Clwyd a De Morgannwg, y naill yn sir ei mebyd a'r llall ei sir mabwysiedig.

Mae Jenni, sy'n Bennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Willows, Tremorfa, yn aelod o Gyngor Cenedlaethol UCAC ac yn Drysorydd Sir De Morgannwg.

Yn ogystal â'i gwaith undebol dros yr ugain mlynedd diwethaf, mae Jenni wedi bod yn weithgar gyda CYD ac wedi dal swydd Trysorydd a Chadeirydd y Sir.

Mae Jenni yn cofio geni'r **Dinesydd**, a chyfranodd sawl croesair yn y dyddiau cynnar yn ogystal â helpu gyda'r **Dinesydd** dyddiol ar faes Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1978.

Llongyfarchiadau iddi ar ei hetholiad a phob lwc iddi dros y ddwy flynedd nesaf yma.


Amguedddfa Werin Cymru

*Seiniau'r Sul*

**Perfformiadau 1994**

Prynhawniau Sul yn unig

| | |
|---|---|
| **MAI** | |
| Gwerinwyr Gwent | 8.5.94 |
| Band St. Albans | 15.5.94 |
| Twrch Trwyth | 22.5.94 |
| Mwynion Mai | 29.5.94 |
| **MEHEFIN** | |
| Mabsant | 5.6.94 |
| Band St. Albans a Mwynion Mai | 12.6.94 |
| Twrch Trwyth | 19.6.94 |
| Pavane | 26.6.94 |
| **GORFFENNAF** | |
| Mabsant | 3.7.94 |
| Band St. Albans | 10.7.94 |
| Twrch Trwyth | 17.7.94 |
| Siwsann George a'r Band | 24.7.94 |
| Saith Rhyfeddod | 31.7.94 |
| **AWST** | |
| Band St. Albans | 7.8.94 |
| Pavane | 14.8.94 |
| Saith Rhyfeddod | 21.8.94 |
| Siwsann George a'r Band | 28.8.94 (Gŵyl Banc) |
| **MEDI** | |
| Band St. Albans | 4.9.94 |
| Pavane | 11.9.94 |
| Twrch Trwyth | 18.9.94 |
| Siwsann George a'r Band | 25.9.94 (Gŵyl Fihangel) |

Manylion pellach ar gael oddi wrth T. Alun Davies, rhif ffôn 0222 569441.


# Y CAMPAU

dan ofal Thomas Davies

## DATHLU CHWARTER CANRIF

Dyma sydd gan **Hywel Price**, un o'u chwaraewyr brwd i'w ddweud am glwb pêl droed arbennig iawn.

Pan sefydlwyd clwb pêl droed Cymry Cymraeg y Brifddinas ym Medi 1969, prin y byddai nifer yn rhagweld y clwb hwnnw - Y Cymric - yn dathlu ei ben-blwydd yn 25 oed gyda chant a hanner yn mwynhau cinio mawreddog yn ddiweddar yng Ngwesty'r Park.

Yn 1969, bu raid i'r clwb ddechrau yn y Bumed Adran - a bu digwyddiad nodedig yn y gêm honno oherwydd i'r ddau dîm wisgo crysau cochion. Gan mai'r tîm oedd yn chwarae gartref oedd y Cymric, gorfu iddynt ddiosg eu crysau a chwarae yn eu crwyn!

Eleni mae gan y clwb ddau dîm, ac roedd y tîm cyntaf yn 3ydd yn yr Uwch Adran ychydig cyn diwedd y tymor - eu safle uchaf erioed - ac yr oedd yr ail dîm yn ddiogel yn y 3edd Adran.

Mae hi'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol - cyfuniad o ieuenctid a phrofiad, yn Gymry Cymraeg ac yn ddi-Gymraeg (tîm 'cosmopolitan' yn ôl y capten, Huw Lloyd) a sesiynau ymarfer wythnosol ym Mhrifysgol Morgannwg.

Ymlaen at y 25 mlynedd nesaf!

## Y BÊL HIRGRON

a Dathlu Chwarter Canrif Eto

**Sefydlwyd Clwb Rygbi Cymry Cymraeg y Brifddinas yr un flwyddyn â'r bêl droed a chefais hanes hwn gan y llywydd, Huw Davies.**

Mae dau dîm gyda ni ac un tîm arbennig iawn, sef Tîm Rygbi Oedrannus (dros 35 oed). Bob bore Sadwrn bydd tua chant o chwaraewyr ieuainc yn cael hyfforddiant gan y clwb, a'r tymor nesaf fe fydd gyda ni dîm Ieuenctid - h.y. o dan 18 oed - ac fe ddaw hyn o achos ein bod wedi bod yn cydweithio ag Ysgol Glantaf. Hefyd, bydd y clwb a'r ysgol yn codi llifoleuadau ar gae'r ysgol yn y Tyllgoed.

Mae'r tîm cynta'n chwarae yn Ail Adran Rhanbarth Caerdydd ac maen nhw'n gwneud yn bur dda ynddi hi. Does dim cynghrair i'r ail dîm, ond maen nhw'n chwarae gemau Cwpan.

I ddathlu'r pen-blwydd fe gynhaliwyd Gŵyl Rygbi i blant rhwng 8 a 14 oed ar Ebrill 23 pan wahoddwyd timau o Gastell Newydd Emlyn a Glan y Fferi i gystadlu. Yng Ngwesty'r Park y bu cinio'r pêl droedwyr, ond yng Ngwesty Marriott y bu'r clwb rygbi'n gwledda pan ddaeth dau gant ynghyd. Roedd gêm i fod yn erbyn Abertawe i goroni'r dathliadau, ond fe fethodd Pencampwyr Cynghrair Heineken ddod. Mark Titley, a fu'n aelod clwb Y Cymry Cymraeg cyn mynd at y Cymry yn Llundain, oedd yn gobeithio trefnu honno. Nod y Clwb yw chwarae **Rygbi Agored** a **Hybu'r Gymraeg:** mae tri-chwarter yr aelodau'n medru'r iaith, gyda llaw. Hir oes iddo.

## GWYL Y SULGWYN

## NEWIDIADAU SBWRIEL/AILGYLCHU YNG NGHAERDYDD

GWASANAETHAU'R AMGYLCHEDD

Gofynnir i chwi gymeryd sylw arbennig o'r newidiadau sydd yn nhrefn y dyddiadau casglu sbwriel (a'r sachau ailgylchu os yn briodol) dros ŵyl y Sulgwyn.

**NEWIDIADAU CASGLU**

| Eich Casgliad Arferol | | | Trefniadau Casglu Dros Dro | |
|---|---|---|---|---|
| Dydd Llun | 30fed o Fai | yn newid i | Ddydd Mercher | *1af o Fehefin* |
| Dydd Mawrth | 31ain o Fai | yn newid i | Ddydd Iau | *2il o Fehefin* |
| Dydd Mercher | 1af o Fehefin | yn newid i | Ddydd Gwener | *3ydd o Fehefin* |
| Dydd Iau | 2il of Fehefin | yn newid i | Ddydd Sadwrn | *4ydd o Fehefin* |
| Dydd Gwener | 3ydd o Fehefin | yn newid i | Ddydd Sul | *5ed o Fehefin* |

Gofynnir i chwi roi eich sbwriel tu allan i'r tŷ naill ai'r noson cyn eich dyddiad casglu newydd neu cyn 7.00am fore'r casgliad ei hun.

Gofynnir i fasnachwyr sydd â chytundeb gyda'r Cyngor gadw'r sbwriel o fewn yr adeiladau hyd y casgliad nesaf.

Dylai'r rhai hynny sydd yn derbyn gwasanaeth clinigol nodi bydd y trefniadau uchod yn berthnasol hefyd.

Y mae tomen ysbwriel y Cyngor yn Ferry Road bellach wedi cau. Bydd y domen ar foes Lamby Way ar agor dros y gwyliau heblaw am Ddydd Llun 30fed o Fai.

Bydd holl storfeydd glanhau y Cyngor ar agor fel arfer dros y gwyliau.

*FFONIWCH ☎ CAERDYDD 822110 GYDAG UNRHYW YMHOLIADAU GLANHAU.*



## Annwyl Olygydd

Hoffwn dynnu sylw y cyhoedd unwaith eto at agwedd hiliol Cyngor SIr De Morgannwy tuag at yr iaith Gymraeg, a gwendid y Ddeddf Iaith bresenol yn wyneb y fath agwedd.

Er gwaethaf gwneud elw o dros £13,000 y llynedd ar eu sustem newydd 'Parcio wrth Dalebau" y mae Cyngor yn dal i wrthod dangos y Gymraeg ar yr arwyddion yn y stryd neu ar y talebau.

Dywedodd llefarydd ar ran y Quango 'Bwrdd yr Iaith Gymraeg' wrth y wasg yn ddiweddar '..y peth mway gweledol am y cynllun (Parcio wrth Dalebau) yw'r arwyddion ar y stryd. Ac arwyddion dwyieithog yw'r unig beth sy'n mynd i helpu at godi statws ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg'.
Ond dywedodd llefarydd (Mr Bernard Richards) o adran Gwasanaethau Ffyrdd Sir De Morannwg nad oedd yn rhaid iddynt godi arwyddion yn ddwyieithog am nad oedd gan y cyngor bolisi ar arwyddion rhybudd yn y Gymraeg a'r Saeneg. Dywedodd llafarydd arall ar eu rhan (sef Mr John Williams Cyfarwyddwr Adran y Prif Ffyrdd), y byddai arwyddion sydd yn dangos y Gymraeg yn 'expensive ..... Intrusive and confusing'.

Nid oes Cymraeg i'w gweld ar unrhyw arwyddion rhybudd ar ffyrdd Caerdydd, ac ar hyn o bryd y mae Cyngor Sir wrthi yn codi nifer helaeth o arwyddion uniaith Saesneg newydd.

Yn sgil agwedd negyddol y Cyngor Sir, ac aneffeithiolrwydd y Quango Iaith yn wyneb ei agwedd geilw Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar siopwyr sydd yn gwerthu y talebau uniaith Saesneg sydd yn rhan o'r sustem honno i beidio â'u gwerthu'n rhagor.

Cred y Gymdeithas y byddai 'boicot' o'r math yn dangos yn glir i'r Cyngor nid oes modd anwybyddu yr iaith Gymraeg fel iaith swyddogol yng Nghymru.

Yn gywir
**Gareth Kiff, Cadeirydd Cell Caerdydd**

*Parhad o tud 5*

oedd y fersiwn hwn ar y triban yn boblogaidd gan weision ffermydd sir Gâr yn nauddegau'r ganrif ddiwethaf a chyn hynny:

Mi welais ddwy lygoden
Yn llusgo *coach* yn llawen,
O dref Caerfyrddin i Gaerdydd
Llawn llestri pridd a halen.

Mae nifer go dda o dribannau Morgannwg yn ymdroi ym myd serch, ac un felly yw'r ail driban sy'n enwi Caerdydd. Mae'n driban sy'n cyfuno'n effeithiol hiwmor y gerdd ffwlbri a gormodiaith y gân serch:

Mi gariaf rhwng fy mreicha
Gaerdydd ac Abertawa,
A Chasnewydd ar fy mhen
O serch at Gwen liw'r bloda.

Nid oes i Gaerdydd, felly, le amlwg yn nhribannau Morgannwg, ac ni allwn gasglu llawer mwy am y lle o'r tribannau uchod na'i fod yn dref o faint sydd mewn man allweddol ar y briffordd trwy Forgannwg. Ond fe geir rhai tribannau sy'n sôn am bentrefi sydd bellach yn rhan o ddinas Caerdydd, ac at y rheini y trown y tro nesaf, os byw ac iach.

## TEYRNGED

*Parhad o dud 5*

Dewis ychwanegol, a gynigiwyd i rai ohonom yn unig, oedd penderfynu a oedden ni am fod yn Gymry Cymraeg ai peidio. Yr oedd Elvet wedi ymuno â staff Ysgol Cathays pan oedd newydd ei sefydlu ym 1930. Sicrhaodd, o'r flwyddyn gyntaf, fod pawb o'r disgyblion yn cael cyfnod yn astudio'r Gymraeg, hyd yn oed os oedd yn rhaid i lawer ohonom ollwng yr iaith nes ymlaen er mwyn cael astudio Lladin. Gwyddai, felly, na fyddai'r amodau dysgu yn caniatau i lawer ohonom feistroli'r iaith a'i llenyddiaeth yn ddigonol i'w gwneud yn eiddo personol inni.

Pan welai fod gan rai honom grap go dda ar y sylfeini cyntaf, cynigiai wersi ychwanegol i ni amser-chwarae'r bore neu'r amser cinio.Apeliai at ei gyd Gymry ar staff yr ysgol neu'r myfyrwyr oedd yn dod ato'n gyson i'w hyfforddi a chawsom wersi pwrpasol ychwanegol mewn ymarferion gyda'r nos yn yr ysgol at gyngherddau, dramau-un-act, neu ar gyfer datgan neges ewyllys da Urdd Gobaith Cymru. Cawsom baratoi'n fanwl ar gyfer eisteddfodau mawreddog yn Neuadd Reardon Smith ym Mharc Cathays ac mewn gorymdeithiau urddasol yn eglwysi'r dref. Cafodd ychydig dethol ymuno mewn gwyliau preswyl yn Llangrannog neu ar deithiau cerdded trwy Gymru - ar bererindodau, weithiau, at eglwysi cadeiriol trwy Gymru benbaladr - ac erbyn diwedd y pumdegau, cafodd rhai o'r bechgyn hynaf aros gydag ef a'i wraig, Mair, yn ystod eu gwyliau haf, hir,hwyliog, yn Sir Benfro a dechrau dod i adnabod pobl ffraeth a charedig ardal yr "Wes" a'r "Wdw".

Wrth ddilyn y dull cwbl fwriadus hwnnw y daeth Elvet Thomas i brofi llwyddiant fel athro ac fel Cymro. Daeth ei ddisgyblion i ddeall mai pobl gyffredin, yr un fath â ni'r disgyblion, yr un fath â'r athrawon oedd yn ein dysgu, oedd y bobl oedd wedi cadw'r iaith Gymraeg yn fyw ac yn gymwys i'w thraddodi i'n cenhedlaeth ni. Gwyddem fod y Gymraeg yn iaith urddasol ac yn iaith ddefnyddiol, a weddai i'r pêl droediwr a'r dylunydd o fri, ac i'r rheolwr banc a'r gwladweinydd o anfri, i'r un graddau ag i'r llenorion a'r cantorion a fu...

Talp o gadernid oedd Tossie. Cafodd ei gadernid, yn y lle cyntaf, oddi wrth ei rieni, oddi wrth ei adnabyddiaeth sicr o'i achau a'i gynefin yn Sir Benfro - nid rhaid ond darllen ei hunangofiont, **Tyfu'n Gymro** (Gomer, 1972) er mwyn deall natur ei rieni a'i natur yntau yn sgil ei fagwraeth yng Nghaerdydd yn ystod dirwasgiad brawychus diwedd y dau ddegau a'r tri-degau - ond, wedi iddo dyfu'n athro profiadol, fe gafodd yn ei wraig, Mair, bartner yr un mor gadarn a phrofiadol yn y gwaith ag yntau. Y mae angen thesaurus i ddigrifio'n llawn yr hyn a gawsom yn y par hwn: gweledigaeth a phenderfyniad, ewyllysio a gweithredu di-ildio, dyfalbarhad a dygnu ymlaen, sirioldeb yn wyneb pob sen a gwawdio, caredigrwydd a haelioni.

Yn Elvet Thomas fe gawson ni, ei ddisgyblion, yn Gymry Cymraeg ac yn Gymry di-Gymraeg fel ei gilydd, reswm i deimlo'r falch ein bod ni yma o hyd. Cawsom hefyd wersi da i'w cofio yn ystod y blynyddoedd anodd sydd i ddod. Tudur Aled a'i fynegodd orau

*"Hysbys y dengys pob dyn*
*O ba radd y bo'i wreiddyn..."*

**W. H. RAYBOULD**

# Ar Gael Nawr

Swyddfa hyfryd yng nghanol dinas Caerdydd. Awyrgylch Cymraeg.

Rhent hynod resymol.

Gwasanaethau atodol ar gael.

O fewn cyrraedd hawdd i orsafoedd y rheilffordd a'r bysiau.

Ffoniwch Elin Jones yn Acen am fanylion llawn.

**0222 665455** acen

S4C

BWRDD DATBLYGU CYMRU WLEDIG
DEVELOPMENT BOARD FOR RURAL WALES



# Y wasg, y llyfrau

**Nofelau a storïau**

**Llais y Llosgwr** / Dafydd Andrews *£5.95*
**Noson yr Heliwr** / Lyn Ebenezer *£5.50*
**Byd Llonydd** / Meleri Wyn James *£4.95*
**Samhain** / Andras Millward *£3.95*
**Titrwm** / Angharad Tomos *£4.95*

**Plant Bach**

**Lliwia'r Siapiau** / Liz Cole *£1.95*
**Tŷ Jac**/Manon Eames/Ioan Hefin/Mary Jenkins *£4.95cc*
**Wini'r Wenynen 1&2** / Siriol Griffiths *£3.95*

**Ffeithiol**

**Y Gitâr** / John Evans *£8.95*
**Rhwng Godro a Gwely** / Harri Gwynn *£4.95*
**DYDDIADURON A5 / Desg / Poced 1995**
*£3.95 / £5.95 / £2.95—c.caled i gyd*

**Celtaidd**

**Guide to Welsh Wales** / Ralph Maud *£5.95*
**Lazy Way to Gaelic** / George Jones *£5.95*
**The Welsh Table** / Christine Smeeth *£5.95*
**The Unofficial Guide to Wales** *£2.95*

y Lolfa
*Cyhoeddwyr ac Argraffwyr*
Talybont, Ceredigion SY24 5HE; ffôn (0970) 832 304, ffacs 832 782



# GŴYL TELYNAU'R BYD

*Noddwr : Ei Huchelder Brenhinol Tywysoges Cymru - Cyfarwyddwr Artistig : Marisa Robles*

***11-18 MEHEFIN 1994***

*Cyngherddau, datganiadau, dosbarthiadau meistr, cerddoriaeth werin, jazz, cystadleuthau ac arddangosfeydd masnach*

*Ymhlith y telynorion enwog o Gymru ac o bedwar ban byd fydd yn cymryd rhan mae*

ALAN STIVELL, ELINOR BENNETT A MEINIR HEULYN *(Dydd Sadwrn 11 Mehefin)*
MARISA ROBLES *(Dydd Sul 12 Mehefin)*
ION IVAN RONCEA *Datganiad Shaenaidd (Dydd Llun 13 Mehefin)*
IEUAN JONES *(Dydd Mawrth 14 a Dydd Gwener 17 Mehefin)*
OSIAN ELLIS *(Dydd Iau 16 Mehefin)*
HARVI GRIFFIN A DEBORAH HENSON-CONANT
*Y Delyn Jazz (Dydd Gwener 17 Mehefin)*
GILLIAN TINGAY A RACHEL MASTERS *(Dydd Sadwrn 18 Mehefin)*

*hefyd yn ymddangos bydd CARYL THOMAS, NANCY ALLEN, ALICE GILES, SILEAS, JAMES GALWAY, EVELYN GLENNIE, Y GERDDORFA PHILHARMONIG FRENHINOL, CÔR MEIBION PONTARDDULAIS a llawer mwy!*

***Am rhaglen lliw lawn cysylltwch â'r Swyddfa Gyhoeddusrwydd ar (0222) 342611, Est 232***

**Neuadd Dewi Sant Caerdydd**

HTV SWALEC

DINAS CAERDYDD CITY OF CARDIFF

***Y SWYDDFA DOCYNNAU (0222) 371236/235900***